

# PÔS CARTREFI – TO AR Y TŶ

gan Duncan Brown  
Lluniau gan Gareth Pritchard



**Mae pawb am gael  
to bach**

^

**uwch ei ben  
weithiau**

Mae cartref y pâl mewn \_\_\_\_\_

## Cymraeg:

mae bob amser angen to bach ^ ar y tŷ – ond nid ar y to ei hun.

**Dyma dylluan sydd yn byw mewn cloddiau ar Ynys Enlli.**



Pa dylluan ydy hi? (Ticiwch)

tylluan wen

tylluan frech

tylluan fach

Ble arall mae tylluanod yn medru byw?  
\_\_\_\_\_

Ble roedd **jac y do** yn nythu cyn i bobl  
adeiladu simneiau cyfleus ar eu tai?

\_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_






Pam fod gan y **troellwr** guddliw gwell na **gwennol y bondo**?

---

---



Pam mae **cigfran** yn dewis nythu mor gynnar yn y flwyddyn – ym mis Chwefror neu ar ddechrau mis Mawrth?

---

---

---

**Fel pobl, mae rhai adar yn fwy cymdogol na'i gilydd.**



Dyma ddau aelod o deulu'r frân – y **gigfran** a **jac y do**. Pa un sydd fel arfer yn nythu mewn haid a pha un sydd byth yn gwneud hynny?



*"Mi welais jac y do. Yn eistedd ar ben to"*

Fel arfer: \_\_\_\_\_

Byth: \_\_\_\_\_

*Cigfran ar ei nyth yn uchel ar y clogwyn*



Pam mae **cywion y wennol** yn aros mewn nyth clyd am bythefnos cyfan... tra mae **cywion y betrisen** yn gorfod rhedeg o gwmpas o fewn oriau o ddeor o'r wŷy?

---



*Dod ar fy mhen  
dy sanctaidd ... **faw**?*



**Byth eto! Y drws amdani'r  
tro nesa, bois bach.**

Ble mae **ystlumod** yn gwneud eu cartrefi?

1 \_\_\_\_\_ 2 \_\_\_\_\_ 3 \_\_\_\_\_

Rhywle arall? \_\_\_\_\_



Pa ddywediad Saesneg am rywun go ryfedd sydd yn cyfeirio at **ystlumod** yn clwydo mewn clochdy eglwys?

\_\_\_\_\_ in the \_\_\_\_\_

Ble mae cartref y **troellwr**? (Ticiwch.)

**Yn yr haf:**

Rhostir grugog

Copa mynydd

Glan y môr



**Yn y gaeaf:**

Siberia

Iwerddon

Affrica

Rhywogaethau'r pôs:

<b>brân</b>	<b>crow</b>
<b>cigfran</b>	<b>raven</b>
<b>gwennol y bondo</b>	<b>house martin</b>
<b>jac y do</b>	<b>jackdaw</b>
<b>pâl</b>	<b>puffin</b>
<b>petrisen</b>	<b>partridge</b>
<b>troellwr</b>	<b>nightjar</b>
<b>tylluan fach</b>	<b>little owl</b>
<b>tylluan frech</b>	<b>tawny owl</b>
<b>tylluan wen</b>	<b>barn owl</b>
<b>ystlum</b>	<b>bat</b>

**Atebion ar y dudalen nesaf**

## Atebion

Mae'r **pâl** yn byw mewn **twannel yn y ddaear**.

Y **dylluan fach** sydd yn **byw mewn cloddiau**.

Cartrefi eraill i dylluanod: hen goed, adeiladau fel lloffttydd, tai allan ffermydd, tyrau eglwysi, blychau nythu ...

Nid oes gan y **troellwr** nyth i guddio ynddo fel **gwennol y bondo**.

Arferai **jac y do** nythu **mewn tyllau naturiol** mewn coed neu greigiau.

Mae'r **gigfran** yn nythu pan fydd digon o fwyd ar gael i'r cywion.

Mae **jac y do** fel arfer yn **nythu gydag eraill** o'i fath, ond fydd y **gigfran byth** yn gwneud hynny.

Mae **cywion y betrisen** yn medru **casglu bwyd a chuddio** rhag gelynion ar y ddaear ond mae **cywion y wennol yn dibynnu'n llwyr ar eu rhieni** nes iddynt ddysgu hedfan.

Gall **ystumod** fyw mewn **llofft dan y to, hen adeilad, ceubren, ogof, hen fwyngloddfa** ... yn wir, unrhyw le tawel, sych a thywyll.

Y dywediad ydy "**Bats in the belfry.**"

Mae'r **troellwr** yn byw yn **yr haf ar rostir** grugog ac yn mudo i **Affrica yn y gaeaf**.